

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

DYDD Llun, 29 Chwefror 2016

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd L.D. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd
L James, Rheolwr y Gwasanaethau Tai

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 10.30 am

- 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.
- 2. DERBYN COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALWYD AR Y 3YDD MEDI 2015**
PENDERFYNWYD Ilofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 3^{ydd} Medi, 2015 yn gofnod cywir.
- 3. PENNU RHENTI AR GYFER SAFLE SIPSIWN/TEITHWYR PEN-Y-BRYN 2016/17**

Rhodddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei bod yn ofynnol i holl Awdurdodau Lleol Cymru gydymffurfio â'r polisi rhenti tai cymdeithasol mewn perthynas â'u lefelau rhent arfaethedig ar gyfer tai cyngor yn 2016/17 a oedd, yn achos Sir Gaerfyrddin, yn cyfateb i gynnydd wythnosol cyffredinol o 2.97% (gan gynnwys £2.00 o gynnydd).

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai er nad oedd Safle Teithwyr Pen-y-bryn yn rhan o'r Cyfrif Refeniw Tai, ac er nad oedd y rhenti'n cael eu rheoli gan bolisi rhenti Llywodraeth Cymru, bernid ei bod yn deg ac yn gyfiawn bod y rhenti'n cynyddu'r un faint â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 1.5%. Yn achos 2016/17 yr oedd hyn yn cyfateb i 1.4%. Felly yr argymhelliad oedd bod rhenti wythnosol Safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn yn £50.39 (heb gynnwys taliadau gwasanaeth a threthi dŵr).

Rhodddwyd gwybodaeth i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol am y cyngor cyfreithiol a gawsid ynghylch pennu ffioedd lleiniau parhaol ar Safleoedd Sipsiwn/Teithwyr Awdurdodau Lleol, a nododd y cyngor hwnnw.

PENDERFYNWYD

- 3.1 pennu rhent o £50.39 ar gyfer y lleiniau ar Safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn yn 2016/17;**
- 3.2 gweithredu'r polisi tâl gwasanaeth er mwyn sicrhau bod tenantiaid y safle yn talu am y gwasanaethau ychwanegol hynny;**

3.3 pennu tâl o £11.25 am ddarparu dŵr.

CHAIR

DATE